enquiries@ashwales.co.uk
ashcymru
FFEITHIAU AC YSTADEGAU
tel: 029 2064 1101

Crynodeb o ganlyniadau YouGov 2009

Seilir yr adroddiad cryno hwn ar ganlyniadau arolwg pwrpasol ASH YouGov o'r enw 'Smokefree'. Gwnaethpwyd y gwaith maes rhwng 25 a 27 Mawrth 2009. Gofynnwyd cwestiynau yr arolwg i sampl cynrychioliadol o n=1,023 o oedolion (18 oed neu hŷn) yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolwg ar lein.[1]

Cefnogaeth i'r gwaharddiad ar ysmygu

Mae cefnogaeth lethol wedi parhau yng Nghymru i'r gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd. Yn 2009 roedd 78% o'r oedolion yng Nghymru yn cefnogi'r gyfraith i wneud pob man cyhoeddus caeedig yn ddi-fwg. Mae'r ffigur hwn yn debyg i ganlyniadau 2008[2] ac yn dangos bod cefnogaeth gref i'r gyfraith yn parhau.

Mae cefnogaeth gynyddol i'r gyfraith sy'n gwahardd ysmygu yn y gweithle. Yn 2009 mae 90% o'r holl oedolion yng Nghymru'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r syniad bod y gyfraith hon yn dda i iechyd y rhan fwyaf o weithwyr. Mae hyn yn gynnydd o 6% o'i chymharu â 2008 pan ddywedodd 84% fod y gyfraith sy'n gwahardd ysmygu yn y gweithle yn dda i iechyd y rhan fwyaf o weithwyr.

Yn 2008, dywedodd 25% o'r holl gyn-ysmygwyr a phobl nad oeddent yn ysmygu yn yr arolwg eu bod yn dal i ddod i gysylltiad â mwg tybaco pobl eraill naill ai gartref (11%), yn y gwaith (11%) neu gartref ac yn y gwaith (3%). Yn 2009 mae hyn wedi gostwng ychydig gyda 23% o bobl yn dal i ddod i gysylltiad â mwg tybaco pobl eraill gartref (11%), yn y gwaith (10%) neu gartref ac yn y gwaith (2%).

Diogelu plant

Dywedodd 84% o'r oedolion yng Nghymru yn 2009 eu bod yn pryderu ynglŷn â phobl ifanc yn dechrau ysmygu. Mae ymatebwyr hŷn, yn enwedig y rhai 55 oed a hŷn, a'r rhai nad ydynt erioed wedi ysmygu yn fwy tebygol o fod yn bryderus (89% o'r rhai 55 oed a hŷn ac 88% o'r rhai nad ydynt erioed wedi ysmygu).

---

[1] YouGov Plc. 1,173 o oedolion oedd maint y sampl. Gwnaethpwyd y gwaith maes rhwng 20fed a 25ain Chwefror 2008. Cynhaliwyd yr arolwg ar lein. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn gynrychiadol o holl oedolion Cymru (18 oed a hŷn).

[2] YouGov Plc. 1,173 o oedolion oedd maint y sampl. Gwnaethpwyd y gwaith maes rhwng 20fed a 25ain Chwefror 2008. Cynhaliwyd yr arolwg ar lein. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn gynrychiadol o holl oedolion Cymru (18 oed a hŷn).

Yn 2009 mae 86% o'r oedolion yng Nghymru yn tueddu i gefnogi neu'n cefnogi'n gryf y mesur a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau fod â thrwydded ddilys i werthu tybaco, y gellir ei diddymu os cânt eu dal yn gwerthu i ysmygwyr dan oed. Dim ond 5% o'r oedolion yng Nghymru sy'n tueddu i wrthwynebu'r awgrym hwn neu'n ei wrthwynebu'n gryf. Yn 2008 roedd 87% o'r boblogaeth yn tueddu i gefnogi'r mesurau hyn neu'n eu cefnogi'n gryf. Mae 90% o'r oedolion yng Nghymru yn 2009 yn cefnogi'n gryf neu'n tueddu i gefnogi ei gwneud yn drosedd i oedolyn brynu sigaréts ar ran plentyn. Dim ond 3% o'r boblogaeth sy'n tueddu i wrthwynebu'r syniad hwn neu'n ei wrthwynebu'n gryf.

Ysmygwyr a rhoi'r gorau i ysmygu

Yn 2009 mae 72% o'r ymatebwyr yn cefnogi mwy o wasanaethau i ysmygwyr trwy Dim Smygu Cymru. Yn nhermau ymdrechion i gynorthwyo'r rhai sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu, mae 72% o'r oedolion yng Nghymru yn 2009 yn cytuno y dylai fod yna fwy o wasanaethau Dim Smygu targededig i helpu grwpiau penodol o bobl (h.y. pobl ifanc, menywod beichiog, grwpiau lleiafrifoedd ethnig), a dim ond 9% sy'n anghytuno.

Casgliadau

Yn 2009 mae yna gefnogaeth gref iawn gan y cyhoedd o hyd i'r gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus cyfyngedig a gweithleoedd. Mae mesurau i ddiogelu plant yng Nghymru yn boblogaidd. Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu cefnogaeth ymysg y cyhoedd yn gyffredinol i waith parhaus i reoli tybaco er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n ysmygu, diogelu plant a lleihau cysylltiad pobl â mwg ail-law.